

Drwy e-bost i bob ysgol a choleg yng Nghymru

13 Ionawr 2021



Annwyl Bennaeth y Ganolfan

Parthed: Haf 2021 a chynnig cymwysterau'r cwricwlwm newydd

Yn dilyn ein cyhoeddiad ddydd Gwener hoffem roi diweddariad pellach.

Haf 2021

Rydym yn gwybod bod gan ddysgwyr, athrawon a darlithwyr bryderon a chwestiynau am yr hyn sy'n digwydd nesaf ynghylch asesiadau ar gyfer Haf 2021.

Rydym yn archwilio'r holl bosibiliadau gan gynnwys graddau a asesir gan athrawon, gan barhau i fod yn ymwybodol o'r sefyllfa sy'n newid yn barhaus. Fe wnaethon ni gyfarfod â'r Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni yr wythnos diwethaf ac rydym yn parhau i wneud hynny yr wythnos hon. Byddant yn rhoi cyngor i'r Gweinidog i lywio polisi Llywodraeth Cymru ar asesu ar gyfer haf 2021.

Mae'r broses hon yn bwysig a bydd yn cymryd amser byr. Yn y cyfamser, rydym yn cymryd safbwyntiau gan ein grŵp cyfeirio penaethiaid ysgolion, grŵp rhanddeiliaid 2021 ac eraill. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi cyn gynted ag y gallwn.

Cymwysterau Galwedigaethol

Mae dysgwyr sy'n dilyn cymwysterau galwedigaethol hefyd yn colli amser addysgu ac mae angen rhoi trefniadau priodol ar waith i liniaru effaith yr amharu hwn. Yn ddiweddarach yr wythnos hon, bydd Ofqual yn ymgynghori ar y dull o ymdrin â chymwysterau galwedigaethol ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Rydym yn gweithio'n agos gyda nhw ar hyn i sicrhau dull teg a chyson i ddysgwyr ar draws y tair gwlad.

Bydd yr holl benderfyniadau ar gyfer asesiadau yn 2021 yn rhoi ystyriaeth briodol i'r amser addysgu a dysgu a gollwyd, yr ansicrwydd ynghylch pryd y bydd dysgwyr yn dychwelyd i addysg wyneb yn wyneb, ac iechyd a lles dysgwyr ac ymarferwyr.

Qualifications Wales

Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222



Cymwysterau Cymru

Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

Y Cwricwlwm - Cymwys ar gyfer y dyfodol: y dewis cywir i Gymru

Mae'r Mesur Cwricwlwm drafft yn mynd drwy'r Senedd, ac rydym am barhau â'r drafodaeth bwysig am ei heffaith ar gymwysterau. Yn ddiweddarach y mis hwn, byddwn yn ymgynghori ar gynigion ar gyfer y pynciau TGAU a chymwysterau eraill a wnaed ar gyfer Cymru i gefnogi'r Cwricwlwm newydd i Gymru. Bydd hyn yn rhoi gwell syniad i ddysgwyr ac ysgolion o'r ystod o bynciau a allai fod ar gael iddynt, i'w helpu i feddwl am y dyfodol a pharatoi ar ei gyfer.

Ar hyn o bryd, rydym yn canolbwyntio ar y dewis o bynciau a chymwysterau a ddylai fod ar gael. Nid ydym eto'n ymgynghori ar y cynnwys y dylai cymwysterau unigol ei gwmpasu nac ar sut y dylid asesu'r cynnwys hwnnw. Daw cynigion ar gynnwys ac asesu yn nes ymlaen, wedi'u llywio gan ymchwil ac ymgysylltu pellach â rhanddeiliaid. Yn ystod y misoedd nesaf byddwn yn casglu barn ac yn profi syniadau am wahanol ffyrdd o wneud pethau, gan gynnwys sut y gall y dulliau amgen mewn ymateb i'r pandemig helpu i lunio cymwysterau yn y dyfodol.

Bydd yr ymgynghoriad ar-lein ac yn cael ei gynnal am o leiaf 10 wythnos. Bydd fersiwn o'r ymgynghoriad sy'n addas ar gyfer pobl ifanc ochr yn ochr â'r brif ddogfen ymgynghori. Byddwch yn gallu ymateb i bob cynnig neu ddewis canolbwyntio ar y rhai sy'n ymwneud â meysydd cwricwlwm penodol yn unig. Byddwn yn monitro cyfradd yr ymatebion yn ofalus; os yw'n ymddangos bod y pandemig parhaus yn golygu bod angen mwy o amser ar ymatebwyr i roi eu barn byddwn yn ystyried ymestyn y cyfnod ymgynghori.

Diolch am eich cefnogaeth barhaus. Os oes gennych unrhyw gwestiynau penodol, cysylltwch â ni drwy e-bostio cyfathrebu@cymwysteraucymru.org.

Yn gywir,



Philip Blaker

Prif Weithredwr